

# Y Samariaid yn disgwyl cannoedd ar filoedd o alwadau am gymorth dros gyfnod y Nadolig : The Guardian

Mae'r Samariaid yn disgwyl derbyn cannoedd ar filoedd o alwadau ffôn dros gyfnod y Nadolig, gyda ffigyrau'n datgelu bod un o bob tri pherson a gysylltodd â'r elusen ar Ddydd Nadolig llynedd yn chwilio am gymorth gydag unigrwydd.



Derbyniodd llinell gymorth yr elusen, sy'n cynnig cymorth cyfrinachol i filiynau o bobl, 11,000 o alwadau am gymorth ar Ddydd Nadolig, a chyfanswm o tua 400,000 yn ystod mis Rhagfyr, y llynedd. Mae'r Samariaid yn rhagweld y byddant yn derbyn hyd yn oed mwy o alwadau yn ystod mis Rhagfyr eleni, ac mae'r elusen yn tynnu sylw at broblem unigrwydd ac unigedd ymhlith pobl ifanc a phobl hŷn.

Yn ogystal ag unigrwydd, y prif faterion eraill a nodwyd gan alwyr i'r Samariaid ar 25 Rhagfyr oedd problemau gyda pherthnasau, trais, profedigaeth, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a phroblemau iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

Er nad oedd cynnydd yn nifer y galwadau ar Ddydd Nadolig o'i gymharu â dyddiau eraill drwy gydol y flwyddyn, mae cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ffonio'r llinell yn gynnar yn y bore ac yn

hwyr yn y nos ar 25 Rhagfyr.

Mae cymaint â 20,0000 o wirfoddolwyr sydd wedi eu hyfforddi yn ateb llinell gymorth y Samariaid ar bob awr drwy gydol o flwyddyn mewn 201 o ganghennau yn y DU ac Iwerddon – gan ateb dros 5 mil o alwadau, e-byst a negeseuon testun. Ar Ddydd Nadolig, mae 1,500 o bobl yn gwneud shifftiau i'r elusen.

**Gallwch gysylltu â'r Samariaid ar 0808 164 0123 (Cymraeg, [oriau agor](#)) neu 116 123 (Saesneg, 24/7)**

### **[Darllen rhagor : The Guardian \(Saesneg\)](#)**

---

- [ERTHYGL: Ymdopi dros gyfnod y Nadolig](#)
- [GWYBODAETH: Unigrwydd](#)
- [NEWYDDION: Miloedd o bobl yng Nghymru yn cael trafferth ymdopi dros gyfnod y Nadolig \(14/12/16\)](#)
- [Cymorth](#)